Polisi Dim Smygu

Cymeradwywyd gan	Y Cyngor Llawn
Dyddiad Cymeradwyo	**10/04/10**
Dyddiad Rhoi ar Waith	**10/04/10**
Perchennog	OH
Dyddiad Adolygu	31/03/25

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

Polisi Dim Smygu

Rheoli Fersiynau

Mae'r ddogfen hon yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. Gellir dod o hyd i'r fersiynau diweddaraf o'n cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynghylch cynnwys y ddogfen hon, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y wefan a'r canllawiau perthnasol.

Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo	Cymeradwywyd gan	Nodiadau / newidiadau
f1.0	25/02/10	Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)	Polisi drafft
f2.0	10/04/10	Cyngor Llawn	Polisi Newydd
f2.1	17/03/15	Catrin Roberts	Diweddariad a chynnwys Cwestiynau Cyffredin
f3.0	16/04/18	Andrea Malam	Ailfformatio
f4.0	26/02/19	Cabinet	Cytunwyd yn yr UDA ar ddiwygiad i'r geiriad ynghylch mannau llecaniateir smygu
f4.1	12/07/21	David Kennedy	Ailfformatio
f4.2	19/07/23	Alana Nicandros	Ddeddfwriaeth newydd

Polisi Dim Smygu

Cynnwys

Rheoli Fersiynau 2
Cynnwys 3
Datganiad Polisi 4
Rhagarweiniad 4
Nodau 4
Gweithredu/Cwmpas y Polisi 4
Ymgysylltu/ Cyfranogiad / Ymgynghori 4
Cyfeiriadau Cyfreithiol ac Eraill 4
Manylion y Polisi 5

- Eiddo/ lleoliadau'r Cyngor 5
- Cerbydau 6
- Mannau lle Caniateir Smygu 6
- Cartrefi preswyl 6
- Gweithwyr allanol 7
- Digwyddiadau preifat 7
- Ardaloedd bariau trwyddedig 7
- Gweithio yng nghartref cleient 7
- Glanhau mannau smygu 8
- Mannau Smygu Dynodedig 8
- Egwyliau smygu 8

Mynd yn Groes i'r Polisi 8

- Gweithwyr 8
- Aelodau 8
- Contractwyr 8
- Cysylltiadau defnyddiol 8

Cwestiynau Cyffredin 9

- All gweithwyr gymryd egwyliau ysmygu yn ystod eu diwrnod gwaith? 9
- Pa gamau fyddai'n cael eu cymryd os yw gweithiwr yn mynd yn groes i unrhyw agwedd ar y polisi hwn? 9
- All gweithwyr smygu mewn cerbyd y Cyngor? 9
- Os yw gweithiwr yn gweithio tu allan, a allant smygu yn ystod eu diwrnod gwaith? 9
- Pa gamau all gweithiwr eu cymryd os ydynt yn gweithio mewn cartref cleient ac nad ydynt eisiau profi smygu goddefol? 9
- A oes mannau smygu wedi'u dynodi ar eiddo'r Cyngor? 10

Polisi Dim Smygu

Datganiad Polisi

Bydd y Cyngor yn darparu amgylchedd gwaith diogel i bob gweithiwr, sy'n ddi-fwg. Ni fydd unrhyw weithiwr yn goddefmwg goddefol wrth wneud eu gwaith. Fel corff cyhoeddus, mae dyletswydd hefyd ar y Cyngor i gyfleu delwedd gadarnhaol i'r cyhoedd ac dangos y ffordd i sefydliadau eraill.

Rhagarweiniad

Bydd y Cyngor yn darparu amgylchedd gwaith diogel i bob gweithiwr, sy'n ddi-fwg. Ni fydd unrhyw weithiwr yn goddef mwggoddefol wrth wneud eu gwaith. Fel corff cyhoeddus, mae dyletswydd hefyd ar y Cyngor i gyfleu delwedd gadarnhaol i'r cyhoedd ac dangos y ffordd i sefydliadau eraill.

Mae'r polisi hwn yn cyfeirio ar sigaréts arferol, sigârs a chetyn, unrhyw sylweddau eraill sy'n cynnwys tybaco a sigaréts electronig.

Nodau

Nod pennaf y polisi hwn yw amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pob gweithiwr. Bydd hefyd yn cynnig cefnogaeth, cyngor achwnsela i weithwyr sy'n dymuno rhoi'r gorau i smygu.

Gweithredu/Cwmpas y Polisi

Bydd y polisi hwn yn berthnasol i bob contractwr, gweithwyr asiantaeth, aelodau etholedig a gweithwyr Cyngor Sir Ddinbych. Bydd y polisi hwn yn berthnasol i bob eiddo a gaiff ei ddefnyddio a'i reoli gan y Cyngor heb law am eiddo sy'n cael eu defnyddiofel llety preswyl.

Ymgysylltu/ Cyfranogiad / Ymgynghori

Drafftiwyd y polisi hwn gan ystyried materion a godwyd gan weithwyr a fu i sioeau teithiol i Staff a chyfarfodydd amser Brecwast.Ymgynghorwyd arno a chafodd ei drafod gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, rheolwyr a'r Undebau Llafur.

Cyfeiriadau Cyfreithiol ac Eraill

Mae Adran 2(1) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar weithwyr tuag at eu gweithwyr ac yn nodi: bydd dyletswydd ar bob cyflogwr i sicrhau, cyhyd â bo

hynny'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles ei holl weithwyr yn eu gwaith. Mae Adran 2(2)(e) Deddf 1974, yn gosod dyletswydd penodol ar y cyflogwr mewn perthynas â gweithwyr:i ddarparu a chynnal amgylchedd gwaith diogel sydd, cyhyd â bo hynny'n rhesymol ymarferol, yn ddiogel, heb beryglon i iechyd a digonol o safbwynt cyfleusterau a threfniadau ar gyfer eu lles yn y gwaith".

Nid y brif ffactor mewn achosion am iawndal dan Ddeddf 1974 yw a oedd y cyflogwr yn gwybod am beryglon sylweddau neu arferion penodol yn y gweithle, ond yn hytrach, a ddylent fod wedi gwybod, yn sgil yr wybodaeth oedd ar gael ar y pryd. Dyma'r cysyniad o "wybodaeth euog". Ym 1998, ceisiodd ASH farn gyfreithiol gan John Melville Williams QC sy'n awgrymu ei bod yn debygol mai'r dyddiad pan y byddai gwybodaeth euog ynghylch mwg ail law wedi ei dal gan y llysoeddfyddai rhywbryd yn ystod y 1990au cynnar.

Ni fydd unrhyw ymgeisydd am swydd neu weithiwr yn profi gwahaniaethu, aflonyddwch na fwlio, nac yn derbyn triniaeth lai ffafrioloherwydd eu hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, hil, beichiogrwydd na mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu gyfrifoldebau gofal.

Manylion y Polisi

Eiddo/ lleoliadau'r Cyngor

Ni fydd smygu'n cael ei ganiatáu yn yr eiddo neu'r lleoliadau canlynol neu eu hamgylchedd cyfagos:

- Canolfannau dinesig
- Swyddfeydd, gan gynnwys derbynfeydd
- Ffreuturau ac ystafelloedd llanast
- Depos
- Parciau gwledig a chyfleusterau awyr agored
- Ysgolion, gan gynnwys ystafelloedd staff
- Cyfleusterau Chwaraeon
- Cyfleusterau toiled yn unrhyw un o'r uchod
- Cartrefi Preswyl (heb law am drigolion)

Polisi Dim Smygu

Oni bai fod yna ardaloedd wedi eu dynodi a'u cytuno gan yr UDA fel Mannau lle Caniateir Smygu ar gyfer Staff.

Ni fydd smygu'n cael ei ganiatáu ger mynedfeydd na ffenestri un o eiddo'r Cyngor nac unrhyw ardal awyr agored arall yn yr ardalgyfagos, lle gallai mwg effeithio ar unrhyw weithwyr eraill neu gyfleu delwedd negyddol o'r Cyngor.

Cerbydau

Ni chaniateir smygu mewn unrhyw gerbyd gyda logo'r Cyngor Sir arno, nac unrhyw gerbyd sy'n cludo gweithwyr a/neu gleientiaidy Cyngor wrth gyflawni eu dyletswyddau. Dylai gweithwyr sydd fel arfer yn cymryd egwyliau yn un o gerbydau'r Cyngor fod yn ymwybodol bod angen iddynt gamu i ffwrdd o'r ardal o amgylch eu cerbyd os ydynt yn dymuno smygu yn ystod egwyliau swyddogol. Dylai gweithwyr ddefnyddio disgresiwn o ran ble maent yn stopio gan roi ystyriaeth ddigonol o ran a yw'n ddiogel a chyfreithiol iddynt wneud hynny, ac ystyried canfyddiad y cyhoedd o'r cyngor bob amser.

Mannau lle Caniateir Smygu

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno smygu ar egwyliau swyddogol neu pan eu bod wedi allgofnodi naill ai ddefnyddio'r mannau LleCaniateir Smygu os oes rhai ar gael neu adael yr ardal yn uniongyrchol o gwmpas eiddo'r Cyngor. Ni fydd smygu'n cael ei ganiatáu ger mynedfeydd na ffenestri un o eiddo'r Cyngor nac unrhyw ardal allanol yn yr ardal yn uniongyrchol o'u cwmpas, llegallai mwg effeithio ar weithwyr eraill neu gyfleu delwedd negyddol o'r Cyngor.

Sylwch nad oes dyletswydd cyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu'r mannau lle caniateir smygu a bydd rhain ond yn cael eudarparu os oes modd a gyda chytundeb yr UDA.

Cartrefi preswyl

Bydd man smygu ddynodedig fewnol ym mhob cartref preswyl ar gyfer y preswylwyr yn unig.Ni fydd hawl gan weithwyr i smygu yn y mannau hyn.

Preswylwyr y cartref gofal oedolion neu hosbis oedolion sydd yn 18 oed a hŷn yn unig sy'n gallu defnyddio ystafell ysmygu ddynodedig. Felly, ni all staff nac ymwelwyr ddefnyddio'r ystafell i ysmygu ac ni chaniateir plant. Os yw rheolwr y cartref gofal oedolion neu hosbis oedolion yn dymuno darparu ystafell ysmygu ddynodedig, mae yna ddau amod newydd ar gyfer y dynodiad:

Polisi Dim Smygu

Amod 1 yw bod y sawl sy'n gyfrifol am y cartref gofal oedolion neu hosbis oedolion yn dynodi'r ystafell ysmygu ar gyfer preswylwyr sydd dros 18 oed yn unig. Mae'n rhaid cadw cofnod o'r holl ystafelloedd sydd wedi eu dynodi. Gall y dynodiad gael ei dynnu yn ôl ar unrhyw adeg;

Mae amod 2 yn ymwneud â'r ystafell ac yn nodi ei ofynion. Yr ystafell:

a) Gyda nenfwd, heblaw am ddrysau a ffenestri, yn gwbl gaeedig ar bob ochr gyda waliau cadarn o'r llawr i'r nenfwd.

b) Nid oes yna system awyru sy'n awyru i ran di-fwg o'r eiddo.

c) Nid oes yna ddrysau nad ydynt yn cau'n fecanyddol ar unwaith ar ôl defnyddio os ydynt yn agor i ardaloedd di-fwg.

d) Wedi'i nodi'n glir fel ystafell ble caniateir ysmygu.

Ni fydd yna unrhyw gonsesiynau i'r polisi hwn.

Gweithwyr allanol

Ni fydd hawl gan weithwyr sy'n gweithio tu allan naill ai fel rhan o grŵp neu'n gweithio ar eu pennau eu hunain i smygu pan eu bodar ddyletswydd.

Digwyddiadau preifat

Bydd pob ystafell sydd ar gael ar gyfer digwyddiadau preifat yn cael eu dynodi'n fannau dim smygu.

Ardaloedd bariau trwyddedig

Bydd pob ardal bariau arbennig wedi eu dynodi'n ardaloedd dim smygu.

Gweithio yng nghartref cleient

Bydd pob cleient yn cael gwybod na ddylai gweithwyr CSDd orfod goddef smygu goddefol, ac felly ni ddylent smygu pan fo gweithwyr yn gwneud gwaith yn eu cartrefi. Bydd gofyn i weithwyr ofyn yn barchus i unrhyw glient sy'n smygu yn eu presenoldebi roi'r gorau iddi nes fod y cyfarfod neu'r gwaith wedi dod i ben. Ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau yn erbyn gweithiwr sy'n gwrthod gweithio gyda chleientiaid sy'n smygu yn eu presenoldeb.

Polisi Dim Smygu

Glanhau mannau smygu

Rhaid cau mannau smygu i gleientiaid 2 awr cyn y bydd y man smygu yn cael ei lanhau a rhaid i'r ardal gael ei hawyru'n dda i glirio mwg goddefol o'r aer.

Mannau Smygu Dynodedig

Ni fydd unrhyw fannau smygu dynodedig. Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno smygu ar egwyliau swyddogol neu pan eu bod wediallgofnodi adael yr ardal yn uniongyrchol o gwmpas eiddo'r Cyngor. Ni fydd smygu'n cael ei ganiatáu ger mynedfeydd na ffenestri un o eiddo'r Cyngor neu unrhyw ardal allanol yn yr ardal yn uniongyrchol o'u cwmpas, lle gallai mwg effeithio ar weithwyr eraill neu gyfleu delwedd negyddol o'r Cyngor.

Egwyliau smygu

Ni fydd unrhyw egwyliau smygu'n cael eu caniatáu.

Mynd yn Groes i'r Polisi

Gweithwyr

Bydd hwn yn cael ei drin fel mater disgyblu a bydd modd gorfodi ystod lawn y cosbau disgyblu a ddisgrifir yngNgweithdrefn Ddisgyblu'r Cyngor.

Aelodau

Bydd hwn yn cael ei drin fel achos o dorri'r Cod Ymddygiad, a bydd y Pwyllgor Safonau yn delio ag o.

Contractwyr

Byddant yn delio â nhw dan weithdrefnau diofyn mewn contractau a byddant yn arwain at gosbau ariannol ac/neu derfynucontract.

Cysylltiadau defnyddiol

www.helpafiistopio.cymru 0808 250 6061

www.helpmequit.wales 0808 250 6061

Polisi Dim Smygu

www.nhs.uk/smokefree

www.quit.org.uk 0800 00 22 00

Cwestiynau Cyffredin

All gweithwyr gymryd egwyliau ysmygu yn ystod eu diwrnod gwaith?

Nid yw'r awdurdod yn cynnig amser i ysmygwyr fynd ar 'egwyl smygu' yn ystod oriau gwaith. Os yw'n berthnasol, gall ysmygwyr ddefnyddio'r Polisi Gweithio Hyblyg i smygu yn ystod eu diwrnod gwaith, fodd bynnag, mae'n rhaid i weithwyr allgofnodi o'r gwaith ar gyfer y cyfnod llawn y maent yn absennol o'u man gwaith. Os nad yw gweithiwr wedi'u cynnwys dan ypolisi gweithio hyblyg yna byddant ond yn cael ysmygu ar eu hegwyliau ffurfiol.

Pa gamau fyddai'n cael eu cymryd os yw gweithiwr yn mynd yn groes i unrhyw agwedd ar y polisi hwn?

Byddai gweithiwr yn wynebu'r Weithdrefn Ddisgyblu.

All gweithwyr smygu mewn cerbyd y Cyngor?

Nid oes hawl gan weithiwr i smygu mewn unrhyw gerbyd gyda logo'r Cyngor Sir arno, nac unrhyw gerbyd sy'n cludogweithwyr a/neu gleientiaid y Cyngor wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Os yw gweithiwr yn gweithio tu allan, a allant smygu yn ystod eu diwrnod gwaith?

Ni fydd hawl gan weithwyr sy'n gweithio'r tu allan, boed mewn grŵp neu ar ben eu hunain, i smygu yn ystod eu diwrnod gwaithoni bai eu bod ar egwyl ffurfiol.

Pa gamau all gweithiwr eu cymryd os ydynt yn gweithio mewn cartref cleient ac nad ydynt eisiau profismygu goddefol?

Ni ddylai unrhyw weithiwr orfod goddef smygu goddefol. Ni fyddai'r awdurdod yn cymryd unrhyw gamau yn erbyn gweithiwr sy'n gofyn yn garedig i glient beidio ag ysmygu yn eu presenoldeb. Disgwylir hefyd na fydd gweithwyr yn smyguyng nghartref y cleient. Gellir darparu offer amddiffynnol i weithwyr dan yr amgylchiadau hyn.

Polisi Dim Smygu

A oes mannau smygu wedi’u dynodi ar eiddo'r Cyngor?

Ni fydd y Cyngor yn darparu unrhyw fannau smygu dynodedig. Rhaid i weithwyr sy’n dymuno smygu yn ystod eu diwrnod gwaith allgofnodi ac yna gadael ffiniau uniongyrchol eiddo’r cyngor. Ni ddylai gweithwyr smygu wrth fynedfeydd neu ffenestrieiddo’r cyngor neu mewn unrhyw ardal a allai effeithio ar weithwyr eraill neu gyflwyno delwedd negyddol o'r Cyngor.